Inspecting policing in the public interest

# Pennu Gwerth yr Heddlu: Arolygiad o Barodrwydd

Heddlu Dyfed-Powys
Gorffennaf 2011

# Diben yr adolygiad

Mae Gwasanaeth yr Heddlu, ynghyd â phob rhan arall o'r sector cyhoeddus, yn wynebu ei her ariannol fwyaf ers cenhedlaeth. Gellid ystyried naill ai bod hwn yn gyfle i arloesi ac adfywio – neu'n rheswm i barhau fel y mae pethau a gweld y gwasanaethau'n torri'n ôl.

Bu Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi (HMIC) yn ymwneud yn helaeth â monitro ymateb y Gwasanaeth a'i barodrwydd am gwtogi ar droseddu a lleihau costau ar yr un pryd. Yn rhan o hyn, aethom ati yng Ngwanwyn 2011 i arolygu pob un o'r 43 o heddluoedd ac awdurdodau yng Nghymru a Lloegr, er mwyn asesu:

• sut maent yn bwriadu ateb yr her ariannol; a
• beth fydd yr effaith ar y gwasanaeth a ddarparant i'r cyhoedd.

Yn yr adroddiad hwn, crynhoir y canfyddiadau ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys. Mae adroddiad thematig, *Adapting to Austerity*, sy'n cyfuno canfyddiadau'r 43 o heddluoedd i gyd, ar gael hefyd o www.hmic.gov.uk.

# Canfyddiadau ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys

## Beth yw'r her ariannol yn Dyfed-Powys?

Mae Heddlu Dyfed-Powys ac Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys yn adrodd eu bod yn wynebu gostyngiad arian parod o £ 9.5m at eu cyllideb dros bedair blynedd y cyfnod adolygiad cynhwysfawr o wariant (2011/12-14/15). Mewn termau real (hy pan mae chwyddiant yn cael ei ystyried), mae hyn yn cyfateb i 8 y cant o'u gwariant refeniw gros.

## A yw'r heddlu a'r awdurdod yn barod i ateb yr her ariannol hon?

Roedd yn amlwg bod yr heddlu a'r awdurdod yn deall yr her ariannol sy'n eu hwynebu, a'u bod wedi ystyried amryw ddewisiadau wrth ddatblygu cynllun i'w hateb. Bydd y rhaglen newid uchelgeisiol ganlyniadol yn ailstrwythuro'r heddlu ac yn darparu arbedion dros y pedair blynedd nesaf. Y bwriad oedd y bydd yr arbedion hyn, mewn gwirionedd, yn rhagori rhyw 30% ar y gofyniad ariannol o £9.5m; byddai hyn yn glustog dda i ymdopi ag unrhyw newidiadau neu gostau annisgwyl.

Roedd strategaeth yn ei lle ar gyfer cyfnod cyfan yr adolygiad cynhwysfawr o wariant, gyda chynlluniau manwl ar gyfer y ddwy flynedd gyntaf. Roedd y rhain yn nodi ble a phryd y bydd yr heddlu'n arbed, ac roeddent yn cynnwys amserlenni a cherrig milltir arbedion. Roedd yr heddlu a'r awdurdod yn goruchwylio'r cynnydd, gyda threfniadau llywodraethu clir a rheolwyr prosiect da yn eu lle.

## Beth fydd yr effaith ar nifer staff a swyddogion yr heddlu?

Roedd Heddlu Dyfed-Powys yn bwriadu gwneud y newidiadau canlynol i niferoedd ei weithlu.

| | Swyddogion yr Heddlu | Staff yr Heddlu | Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu |
|---|---|---|---|
| **31 Mawrth 2010 (gwirioneddol)** | 1,195 | 720 | 83 |
| **31 Mawrth 2015 (arfaethedig)** | 1,200 | 555 | 83 |

Ffigurau mis Mawrth 2010 a ddefnyddiwyd yn fan cychwyn, gan fod rhan fwyaf o wasanaethau heddlu wedi dechrau rhewi recriwtio yn y flwyddyn honno, a niferoedd y gweithlu wedi dechrau gostwng o ganlyniad. Cafodd y ffigurau arfaethedig a ddangosir ar gyfer Mawrth 2015 eu darparu i HMIC gan yr heddlu ym mis Mehefin 2011.

Bydd cynlluniau'r heddlu a'r awdurdod ar gyfer y gweithlu yn parhau i gael eu mireinio wrth i'r rhaglen newid fynd yn ei blaen.

## Beth fydd yr effaith ar y gwasanaeth i'r cyhoedd?

Mae gan yr heddlu a'r awdurdod weledigaeth glir ar gyfer plismona dros y pedair blynedd nesaf, sy'n rhoi blaenoriaeth i gyflenwi gwasanaethau i'r cyhoedd (yn enwedig plismona cymdogaeth), a'u diogelu rhag niwed. Roedd yr heddlu'n cydnabod y perygl y bydd toriadau'n effeithio ar y gwasanaeth a gyflenwir ganddo i'w gymunedau ac aeth ati i fynd i'r afael â hyn (er enghraifft, drwy newid patrymau sifft i sicrhau bod cynifer o swyddogion â phosibl ar gael i'r cyhoedd).

Roedd strategaeth cyfathrebu a marchnata newydd yn ei lle i roi gwybod i'r cyhoedd am newidiadau posibl. Bu'r heddlu'n ymgynghori hefyd â'i gymuned leol ynghylch y rhaglen newid, ac mae tystiolaeth bod yr adborth a gafodd wedi helpu i ffurfio'r strategaeth pedair blynedd.

## A oes gan yr heddlu dargedau i gwtogi ar droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol?

Tasg gyntaf yr heddlu yw cwtogi ar droseddu a chadw'r heddwch; yn 2010, dywedodd Theresa May, yr Ysgrifennydd Cartref, ei bod yn disgwyl i heddluoedd ac awdurdodau wneud toriadau ariannol ond parhau i gwtogi ar droseddu a hynny heb niweidio'r rheng flaen.

Mae gan Ddyfed-Powys dargedau yn eu lle i leihau difrod troseddol a throseddau treisgar difrifol. Mae hefyd yn anelu at gadw nifer y troseddau treisgar mwyaf difrifol yn sefydlog (hy peidio â gadael i'r lefel gynyddu).

© HMIC 2011
ISBN: 978-1-84987-540-0
www.hmic.gov.uk